# CABINET

# DYDD LLUN, 24 EBRILL 2023

**YN BRESENNOL:** y Cynghorydd D. Price (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| C.A. Davies | L.D. Evans | P.M. Hughes | G.H. John |
| A. Lenny | J. Tremlett | A. Vaughan Owen | |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | |
|---|---|
| G. Davies | E.G. Thomas |

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd D.M. Cundy

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
W. Walters, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet
C. Higginson, Rheolwr Cyfryngau
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 - 10.46 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFODYDD Y CABINET A GYNHALWYD AR 27 MAWRTH 2023

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2023 yn gofnod cywir.**

## 4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## 5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd fod pedwar cwestiwn â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

### 5.1. CWESTIWN GAN CONOR MACDONALD I'R CYNGHORYDD DARREN PRICE - ARWEINYDD Y CYNGOR

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Cabinet nad oedd yr holwr, Mr Conor MacDonald yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod i ofyn ei gwestiwn. Yn unol â hynny, darllenodd Arweinydd y Cyngor y cwestiwn ar ei ran, fel a ganlyn:

“Yn ei maniffesto, ymrwymodd y blaid mewn grym i'r egwyddor o gymdogaethau 20 munud a hyrwyddo teithio llesol. Mae'r maniffesto'n nodi'n benodol bod "[Awdurdodau Lleol yn] Creu cymhellion i annog pobl i ddefnyddio e-feiciau ac annog pobl i ddefnyddio cynlluniau llogi beiciau, ac archwilio’r posibilrwydd o e-feiciau cargo i ddisodli faniau a lleihau traffig Cerbydau Nwyddau Trwm" yn bwysig i hyn. (Plaid Cymru 2022;Maniffesto Llywodraeth Leol; t. 24) Ers cael ei ethol yn 2022, sut mae'r cyngor wedi hyrwyddo nodau'r ymrwymiadau hyn, yn enwedig yr un ynglŷn ag e-feiciau a chynlluniau llogi beiciau?”

**Ymateb gan y Cynghorydd Darren Price, Arweinydd y Cyngor:-**

“Mae'r testun sy'n cael ei ddyfynnu yn y cwestiwn yn cyfeirio at y maniffesto cenedlaethol a gyhoeddodd Plaid Cymru cyn yr etholiadau Llywodraeth Leol y llynedd. Yn amlwg bydd yr Aelodau, ac aelodau o'r cyhoedd, yn ymwybodol fod Plaid Cymru yn Sir Gaerfyrddin wedi datblygu ei maniffesto lleol ei hun ac mai ar sail hynny y gwnaethom ymgysylltu gyda thrigolion cyn yr etholiad y llynedd, felly er bod yna rai elfennau o'r maniffesto cenedlaethol sydd wedi'u copïo i'r maniffesto lleol, nid yw hynny'n wir am y testun i gyd, ac mae hyn yn un enghraifft o'r fath. Wedi dweud hynny, yn amlwg fel Cabinet gwnaethom nodi ein huchelgeisiau o ran teithio llesol ar draws y sir yn ein datganiad gweledigaeth fel Cabinet fis Gorffennaf diwethaf, ac mae cyfeiriad clir at yr angen i ddatblygu'r maes hwn yn y strategaeth gorfforaethol ac yn y cynlluniau busnes y cytunwyd arnynt gan y Cyngor ac sydd yn y broses o gael eu datblygu wrth i ni siarad. Felly, dim ond i ddarparu rhywfaint o gyd-destun yr hyn yr ydym yn ei wneud gyda golwg ar yr agenda hon:

- Rydym wedi darparu seilwaith ategol ar gyfer cynlluniau llogi e-feiciau Actif sy'n cael eu gwireddu ar hyn o bryd gan Dîm Datblygu Chwaraeon y Cyngor. Mae'r cydweithwyr Hamdden Actif yn treialu'r cyfleuster llogi 'byw' cyntaf drwy'r ap Actif yng Nghanolfan Hamdden Llanymddyfri yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Os yw'n mynd yn dda, bydd yn cael ei gyflwyno ar safleoedd Canolfannau Hamdden Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli. Erbyn hyn mae gan bob safle orsafoedd gwefru a beiciau, a gwnaethom gynorthwyo drwy osod storfa feicio ddiogel yn y pedwar safle.

- Rydym hefyd yn darparu mannau gwefru e-feiciau yn ddi-dâl mewn wyth lleoliad ar draws y sir, a fydd yn cael eu hyrwyddo ymhellach yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod unwaith y bydd yr holl arwyddion wedi'u gosod. Mae'r

nifer hwn yn parhau i ehangu. Mae'r lleoliadau presennol yn cynnwys Parc Gwledig Pen-bre, Y Goleudy, Porth y Dwyrain, Canolfan Hamdden Dyffryn Aman, Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Canolfan Hamdden Llanymddyfri, Rhodfa'r Santes Catrin, Y Caban ym Mhentywyn, ac yn fuan bydd lleoliad arall yn cael ei gyflwyno yn Hwb Beicio Cwmaman yn y Garnant.

- Rydym wedi prynu deuddeg e-feic cargo ac rydym yn treialu eu defnydd trwy Ardal Gwella Busnes Llanelli - rydym wedi bod yn ymgysylltu â grwpiau Canol y Dref a chydweithwyr Adfywio er mwyn cyflwyno hyn yn ehangach yn 2023/24.

- Fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i hyrwyddo teithio llesol, mae gorsafoedd llogi beiciau wedi'u gosod yng Ngorsaf Fysiau Caerfyrddin, cyfnewidfa Porth Tywyn, a Gorsaf Reilffordd Llanelli. Mae pobl yn gallu neilltuo beiciau ar-lein neu drwy neges destun a'u casglu o orsafoedd docio am gyn lleied â £3.50 y dydd. Brompton Bike Hire sy'n gyfrifol am y beiciau a gellir eu plygu a'u cario ar drafnidiaeth gyhoeddus. Ar hyn o bryd mae ganddynt feiciau plygadwy safonol Brompton ond byddant yn cael eu huwchraddio i gynnwys EBromptons yn y dyfodol.

- Bydd llogi beiciau at ddefnydd y gymuned ar gael yn fuan mewn canolfannau hamdden ledled y Sir, ynghyd â mannau parcio beiciau a mannau gwefru beiciau trydan.

- Rydym hefyd, fel y bydd yr aelodau'n ymwybodol, wedi gwneud cynnydd gyda golwg ar lwybr beicio Tywi - Llandeilo ac edrychwn ymlaen at weld hwnnw'n agor ymhen ychydig flynyddoedd.  Yn yr un modd rydym wedi gwneud cynigion am arian grant gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gyda golwg ar ddatblygu ymhellach yr agenda teithio llesol ledled y sir.  Bydd yr aelodau yn ymwybodol, wrth gwrs, ein bod wedi cyflwyno cynnig am deithio llesol rhwng cynllun Pentre Awel a chanol tref Llanelli o dan y rownd Ffyniant Bro yr haf diwethaf.  Roedd yn siomedig wrth gwrs na chafodd y cynnig hwnnw ei gefnogi gan Lywodraeth Geidwadol y DU.  Roedd yn siomedig ar sawl ffrynt wrth gwrs, roeddem wedi buddsoddi'n helaeth fel Cyngor, roedd llawer o amser swyddogion wedi mynd i mewn i'r cynnig hwnnw, ac roeddem yn hyderus bod y cynnig yn gwneud synnwyr o ran ei amcanion ac o safbwynt ariannol; ond wrth gwrs darganfuom yn ddiweddarach nad oedd gennym obaith o lwyddo yn yr ail rownd honno mewn gwirionedd oherwydd y ffaith ein bod wedi llwyddo yn rownd gyntaf cyllid Ffyniant Bro gyda HWB Caerfyrddin. Felly roedd hi'n siomedig iawn fel Cyngor ein bod ni wedi darganfod hynny ar ôl y digwyddiad, ond wrth gwrs doedden ni ddim ar ein pennau ein hunain yn hynny o beth ac roedd yna nifer o Awdurdodau Lleol ar draws Cymru a gweddill y DU oedd yn eu cael eu hunain mewn sefyllfaoedd tebyg ac rwy'n deall efallai bod yna her gyfreithiol ar y gweill ar y sail honno.

Felly rydym yn gwneud llawer o waith ar yr agenda hon.  Yn amlwg mae mwy y gallwn ei wneud.  Un o'r llwybrau ariannu a oedd ar agor i ni dros y blynyddoedd diwethaf oedd cyllid yr UE.  Yn amlwg o ganlyniad i'r ffaith ein yn bod gadael yr UE, roedd yna ymrwymiad gan Lywodraeth Geidwadol y DU na fyddai Cymru yn colli ceiniog o gyllid o gronfeydd strwythurol; mae'n amlwg nad yw hynny wedi digwydd. Yr amcangyfrifon diweddaraf a wiriwyd yn annibynnol yw bod Cymru yn mynd i golli £1bn o fuddsoddiad yn ystod rownd y gronfa strwythurol hon.  A phan fyddwn yn siarad am y symiau hyn, weithiau gallant ymddangos yn bell.  Ond yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin, yn gyffredinol rydym yn tueddu i dderbyn tua 6% o'r cyllid ar gyfer

Cymru gyfan felly pan fyddwch chi'n meddwl am £1bn sydd ar goll o'r coffrau, yn Sir Gaerfyrddin byddai hynny wedi rhoi £60m ychwanegol i ni pe bai llywodraeth Geidwadol y DU wedi glynu wrth eu haddewid a sicrhau cydraddoldeb fel parhad o'r cyllid. Byddai £60m yn mynd yn bell iawn yn Sir Gaerfyrddin i ddarparu gwelliannau o ran teithio llesol a llu o brosiectau adfywio eraill, ond dyna'r sefyllfa yr ydym ynddi. Rwyf yn gobeithio bod hynny'n rhoi rhywfaint o gyd-destun o ran ble yr ydym ni ar yr agenda hon".

## 5.2. CWESTIWN GAN TARA-JANE SUTCLIFFE I'R CYNGHORYDD ANN DAVIES - YR AELOD CABINET DROS FATERION GWLEDIG A PHOLISI CYNLLUNIO

"Mae'r newyddion bod ein banc olaf (Barclays) yn cau yn Llandeilo ym mis Mehefin yn ergyd o ran cael mynediad at wasanaethau yn lleol, ond gan mai hwn yw'r pedwerydd banc i gau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bydd hyn hefyd yn effeithio'n sylweddol ar gymeriad y dref. Mae hen adeiladau banc HSBC a Lloyds, a gaewyd yn 2014 a 2018, yn parhau i fod yn wag ac yn dirywio, er bod o leiaf un yn adeilad rhestredig oherwydd ei arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol. Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i ddiogelu a gwella stryd fawr hanesyddol Llandeilo - a sut y gall trigolion fod yn rhan o'r gwaith hwn?"

**Ymateb gan y Cynghorydd Ann Davies, Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio :-**

"Rwy'n mynd i ymddiheuro ar y dechrau am yr ateb hir a chynhwysfawr hwn ond teimlaf fod angen i mi nodi rhai o'r buddsoddiadau sydd wedi bod o fudd i Landeilo ers i ni arwain y Cyngor sef 2015.

O ran y banciau, mae 3 o'r 4 banc stryd fawr wedi cau: gwerthwyd HSBC a'i brynu gan ddatblygwr; mae wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer ei addasu yn far gwin, ond nid oes gwaith wedi'i gwblhau ers 3 blynedd. Mae Banc Lloyds a Nat West wedi cael eu prynu gan berchennog y Cawdor ac rwy'n siŵr y gwelwn ni gynlluniau yn dod ymlaen maes o law, gan gofio pa mor dda y caiff y Cawdor ei redeg, does gen i ddim pryderon am yr adeiladau yma.

Ond os gallaf ganolbwyntio ar yr hyn y mae'r glymblaid dan arweiniad Plaid Cymru wedi'i ddarparu ar gyfer Llandeilo gan na allwn newid unrhyw benderfyniadau masnachol gan Barclays, er iddyn nhw wneud elw o £5 biliwn y llynedd. Mae'n anffodus fod y banciau amlwladol yma yn cau canghennau ar draws y DU ac wedi bod yn gwneud hynny ers nifer o flynyddoedd. Mae hefyd yn siomedig nad yw Llywodraeth Geidwadol y DU yn gweithredu i geisio atal y canghennau hyn rhag cau yn y lle cyntaf. Credaf fod gan ganghennau lleol rôl allweddol o ran cefnogi ein cymunedau gwledig, ond eto nid yw Llywodraeth Geidwadol y DU wedi gwneud dim, neu'r nesaf peth i ddim yn ystod y 10 mlynedd diwethaf i atal y sefyllfa hon rhag datblygu. Mae yna angen clir am fwy o reoleiddio ar y sector bancio ac am fwy o ddiogelu canghennau gwledig, ond mae'n ymddangos ei bod yn bwysicach gan Lywodraeth Geidwadol y DU eu bod yn cefnogi eu ffrindiau yn y ddinas, na chefnogi cymunedau gwledig fel Llandeilo.

Mae Llandeilo yn un o'n 10 tref farchnad ac mae wedi cael cyfran sylweddol o arian trwy adfywio dros y blynyddoedd diwethaf. Fel y gwyddoch mae'r weinyddiaeth hon newydd gwblhau'r gwaith o adnewyddu adeilad rhestredig Gradd II Neuadd Farchnad Llandeilo a fydd yn creu ac yn darparu lle i 45 o swyddi a hyd at 17 o fusnesau bach a chanolig yng nghanol y dref. Bydd y buddsoddiad hwn o ychydig

dros £4.1m yn ysgogiad i adfywio pellach yn y dref. Ac mae dros £2.4m wedi bod yn gyfraniad gan y Cyngor a'r gweddill gan Lywodraeth Cymru.

Mae Llandeilo hefyd wedi cael Arfarniad Ardal Gadwraeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi ysgogi syniadau a chyfleoedd i'w gwella fel canol tref hanesyddol. Mae'r arfarniad diweddar yn rhoi treftadaeth hanesyddol a phensaernïol wrth ei wraidd a bydd angen i unrhyw brosiectau adfywio a gynigir ar gyfer yr ardal roi ystyriaeth iddo. Bydd hyn yn cael ei roi ar y wefan cyn gynted ag y bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet ac mae'n gweithio'i ffordd drwy'r broses ddemocrataidd, sydd wedi bod trwy'r broses graffu ac a fydd yn dod gerbron y Cabinet yn fuan iawn.

Yn dilyn y gwaith hwn ar Ardaloedd Cadwraeth mae'r Tîm Treftadaeth Adeiledig wedi gwneud cais i Gronfa Ffyniant Gyffredin Cymunedau Cynaliadwy er mwyn cefnogi'n uniongyrchol y gwaith o adfywio canol y trefi hanesyddol mewn 7 o'r trefi gwledig ar draws Sir Gaerfyrddin, a Llandeilo yw un o'r 7 hynny a ddewiswyd. Bydd y prosiect, os caiff ei ariannu'n llwyddiannus, yn cyflwyno gweithgareddau hyfforddi ac addysg i drigolion lleol mewn effeithlonrwydd ynni a gofal priodol ar gyfer hen adeiladau ac yn cynnig rhaglen grant bach 3ydd parti i adnewyddu ac atgyweirio adeiladau masnachol hanesyddol.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn unigryw yng Nghymru gyfan ac efallai yn y DU gyfan o ran bod ganddi ganolfan wybodaeth a hyfforddiant adeiladau hanesyddol yn Llandeilo, sef Canolfan Tywi wrth gwrs, sydd o fewn awdurdodaeth y Cyngor. Mae'r Tîm Treftadaeth Adeiledig yng Nghanolfan Tywi yn Fferm Plas Dinefwr, Llandeilo ar gael i roi cyngor am ddim cyn gwneud cais ar gyfer adeilad rhestredig a gwybodaeth am atgyweirio a chynnal a chadw pob adeilad traddodiadol yn briodol, yn ogystal â darparu rhaglen helaeth o hyfforddiant.

Fel y soniais ar y dechrau, ymddiheuriadau am yr ateb hir, ond mae'r gwaith y mae'r weinyddiaeth hon o dan arweiniad Plaid Cymru wedi'i gyflawni yn Llandeilo wedi bod yn aruthrol. Mae'n werth nodi hefyd bod y fenter 10 tref yn dod â thrac pwmpio i mewn i'r dref at ddefnydd hamdden. Ac rwy'n edrych ar Edward yma gan obeithio mai fe fydd y cyntaf ar y beic o amgylch y trac pwmpio! Yn ôl pob tebyg bydd hyn yn cael ei ddefnyddio gan drigolion iau Llandeilo, ond wrth baratoi'r fenter hon bydd yn darparu gweithgareddau, siopau a chyfleoedd hamdden i bawb, gan arwain at economi fywiog sydd o fudd i drigolion a thwristiaid fel ei gilydd".

**Cwestiwn atodol gan Ms Tara-Jane Sutcliffe:-**

"Arfarniad ardal gadwraeth. Rwy'n gwybod bod sôn wedi bod yn un o'r is-bwyllgorau cyn y Pasg y bydd yr ardal gadwraeth yn Llandeilo yn cael ei rhannu'n ddwy, un ardal i gwmpasu'r dref ac un ardal i gwmpasu Dinefwr - sydd, fel rwy'n deall, yn seiliedig ar argymhellion arbenigol a ddarparwyd gan Donald Insall Associations. A ydych mewn sefyllfa i ddweud unrhyw beth pellach ar fwriadau i dderbyn yr argymhellion hynny, ac ymhellach a allwch chi ymrwymo i ddiogelu ardaloedd cadwraeth yn Llandeilo? Roeddech chi'n sôn bod y broses yn parhau felly a yw hi efallai ychydig yn gynnar i ddweud ar hyn o bryd? Diolch yn fawr".

**Ymateb gan y Cynghorydd Ann Davies, Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio i'r cwestiwn atodol:-**

"Yr argymhelliad yw bod y ddwy ardal wahanol yn cael eu rhannu ac mae hynny am fod y ddwy ardal yn wahanol iawn. Tref farchnad yw'r dref - mae ganddi ei

threftadaeth ei hun - ond wrth gwrs mae Parc Dinefwr yn wahanol iawn, mae'n ardal wahanol, sy'n llawer mwy gwledig a dyna'r rheswm dros rannu'r ddwy ardal. Fel y soniais, mae'n mynd drwy'r broses ddemocrataidd, mae wedi mynd drwy'r broses Graffu a bydd yn dod yn ôl i'r Cabinet maes o law a bydd y penderfyniad wedyn yn cael ei wneud gan y Cabinet. Diolch".

**5.3. CWESTIWN GAN HAVARD HUGHES I'R CYNGHORYDD ANN DAVIES - YR AELOD CABINET DROS FATERION GWLEDIG A PHOLISI CYNLLUNIO**

"A fydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cefnogi ymgyrch dros Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Tywi? Byddai ffiniau awgrymedig yr ardal hon yn seiliedig ar yr ardal a nodwyd fel "Tirwedd Eithriadol" ar asesiad LANDMAP Cyfoeth Naturiol Cymru."

**Ymateb gan y Cynghorydd Ann Davies, Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio :-**

"Diolch i chi am eich cwestiwn. Fel y gwyddoch mae dynodi Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn dod o fewn cylch gwaith CNC a Gweinidogion Llywodraeth Cymru, ac er y bydd gan Sir Gaerfyrddin rôl ymgynghori, nid ni sy'n gwneud y penderfyniadau. Hefyd, os caf eich atgoffa Havard nad yw Parc Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn atal peilonau rhag cael eu hadeiladu ar y safleoedd hyn, fel yn Eryri a Bannau Brycheiniog, a hefyd ni wnaeth Ardal Tirwedd Arbennig atal Tyrbinau Gwynt rhag cael eu hadeiladu ar ben Mynydd y Betws.

Mae grŵp Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol y Mynyddoedd Cambriaidd wedi bod yn gweithio ar eu cais ers tua 2 flynedd gan ofyn am gefnogaeth y Cyngor gan fod pen gogleddol y Sir yn dod o fewn yr ardal. Maen nhw wedi cyflwyno eu cais ac wedi cael gwybod gan weinidogion Cymru na fydd y cais yn cael ei asesu tan 2025/26 ar y cynharaf, ac yna dim ond os yw'n mynd i flaen-raglen waith newydd y Llywodraeth.

Felly, maen nhw wedi bod yn gweithio ar hyn ers 2021 ac mae'n bosib y bydd ganddyn nhw ymateb erbyn 2026. Gan gofio bod Bute and Green Gen yn gobeithio cyflwyno cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol erbyn 2024 - nid yw'r amserlen ar ein hochr ni yn y mater hwn, ac fel y gwyddoch, unwaith eto Llywodraeth Cymru ac nid y Cyngor Sir hwn sy'n penderfynu ar gais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

O fynd yn ôl at y cwestiwn o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, cyn cyflwyno ymateb i'r grŵp Mynyddoedd Cambriaidd, mi wnes i ymgynghori gyda'r tri Chyngor Cymuned sy'n dod o fewn ffin y cais hwn. Daeth y tri Chyngor Cymuned yn ôl gydag ymateb negyddol. Mae un ohonynt o fewn llwybr Wysg/Tywi. Ceisiadau cynllunio oedd eu prif bryderon, gan fod cael caniatâd cynllunio ar gyfer ail Gartref Menter Wledig neu ar gyfer siediau ychwanegol ar gyfer ŵyna a lloia yn cael ei ystyried yn llawer anoddach mewn ardal sydd wedi ei dynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae Undeb Amaethwyr Cymru a'r NFU yn erbyn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ychwanegol, ac felly hefyd Barciau Cenedlaethol am y rheswm hwn.

A gaf eich sicrhau chi Havard, fy mod yn benderfynol o wneud popeth o fewn fy ngallu i ddiogelu ein tirweddau arbennig ar draws y sir tra hefyd yn sicrhau bod

ffermydd a mentrau lleol yn gallu datblygu a chefnogi swyddi o fewn ein hardaloedd gwledig a darparu economi fywiog i'n holl drigolion.

Felly, cyn gwneud penderfyniad pendant ar y mater hwn, teimlaf ei bod yn hanfodol bwysig bod ymgynghori'n digwydd gyda'r trigolion a'r busnesau y byddai hyn yn effeithio arnynt. Mae'n hollbwysig fod unrhyw un sy'n cynnig Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn Nyffryn Tywi yn ymgynghori gyda'r rhai sy'n byw yn yr ardal, y rhai sy'n rhedeg busnesau yn yr ardal, cynrychiolwyr etholedig y cynghorau cymuned lleol, cynrychiolwyr etholedig y Cyngor Sir hwn, a mudiadau fel yr undebau amaeth a phartïon eraill sydd â diddordeb. Diolch".

**Cwestiwn atodol gan Mr Havard Hughes:-**

"Yn y cyfarfod diwethaf gwnaethoch sôn y byddai'r ardaloedd tirwedd arbennig yn cael eu disodli gan ganllawiau ar sut y bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn asesu ei ardaloedd tirwedd yn y dyfodol. Bydd hyn yn rhoi cyflwyniad ar yr ymgynghoriad a'r cyngor yn seiliedig ar y CDLl. Mae hyn wedi gadael ansicrwydd a phryder ymhlith trigolion. Pryd fydd hyn yn cael ei gyhoeddi? A beth ydych chi'n mynd i'w wneud ag e yn dilyn yr ymgynghoriad?

**Ymateb gan y Cynghorydd Ann Davies, Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio i'r cwestiwn atodol:-**

"Diolch i chi am eich cwestiwn Havard . Hoffwn nodi'n gyflym cyn i mi ateb eich ail gwestiwn, a sylwaf yn eich datganiad i'r wasg yn syth ar ôl eich ymweliad diwethaf yma â'r Siambr, eich bod wedi dweud mai'r "dynodiad Ardal Tirwedd Arbennig wnaeth achub darn Abergwili rhag cael peilonau ac a arweiniodd at eu gosod o dan y ddaear". Ga i awgrymu eich bod yn gwirio'ch ffeithiau cyn cyflwyno i 'Wales Online' yn y dyfodol gan nad yw'r Farn Gyfreithiol yn sôn am Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn y penderfyniad cloi. Mae yna sawl rheswm arall, ond nid ydynt yn cynnwys dynodiad Ardal Tirwedd Arbennig, a dyna pam mae angen polisi cryfach a mwy cadarn. Ac os sylwch yn yr ymgynghoriad ar y CDLl, mae'r fframwaith newydd yr ydym yn ei gynnig – yr asesiadau cymeriad tirwedd - yn cael eu crybwyll yn y ddogfen honno ac awgrymaf eich bod yn mynd yn ôl i edrych ar honno cyn i ni gael sgwrs bellach".

## 5.4. CWESTIWN GAN CHARLIE EVANS I'R CYNGHORYDD DARREN PRICE, ARWEINYDD Y CYNGOR

"Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch ei safle newydd ar gyfer ysbyty gofal brys a gofal wedi'i gynllunio newydd. Bydd hyn yn arwain at israddio'n ddifrifol wasanaethau yn Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin ac mae trigolion yn gwrthwynebu hyn yn gryf. A chymryd bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gwneud sylwadau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ynghylch yr ymgynghoriad, pa un o'r tri safle arfaethedig- Sanclêr, Gerddi'r Ffynnon yn Hendy-gwyn ar Daf neu Dŷ Newydd yn Hendy-gwyn ar Daf yw'r opsiwn a ffefrir gan y Cyngor?"

**Ymateb gan y Cynghorydd Darren Price, Arweinydd y Cyngor:-**

''Diolch ichi am y cwestiwn. Yn gyntaf oll byddwch chi'n ymwybodol o ddatganiadau sydd wedi eu gwneud dros nifer o flynyddoedd gan aelodau'r Cyngor hwn o ran pwysigrwydd Glangwili i Sir Gaerfyrddin, ac nid yw ein safbwynt ni wedi newid yn yr ystyr yna - rydym o'r farn bod gan Glangwili rôl ganolog mewn darparu gofal iechyd i

bobl Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol. Fodd bynnag, rwy'n cwestiynu'r rhesymeg y tu ôl i'ch cwestiwn, mae'n ymddangos braidd yn ddibwrpas yn yr ystyr mai'r Bwrdd Iechyd yw'r corff sy'n penderfynu ar hyn, fel y gwyddoch yn iawn, felly rwy'n meddwl tybed pam eich bod yn gofyn i'r Cyngor Sir am eu barn ar y safleoedd sy'n cael eu cyflwyno. Teimlaf fod y cwestiwn yn fas ac yn brin o ddyfnder oherwydd, a dweud y gwir, mae yna heriau llawer mwy yn wynebu iechyd a gofal cymdeithasol yn y rhan hon o'r byd, fel yn wir yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Does dim sôn yn y cwestiwn am bwysigrwydd trosglwyddo gofal o leoliadau acíwt i leoliadau yn y gymuned - mae hynny'n gwbl sylfaenol ac yn rhywbeth yr ydym fel Cyngor wedi bod yn pwyso ar y Bwrdd Iechyd arno ers nifer o flynyddoedd, ac rydym yn credu ei fod yn gwbl ganolog i unrhyw weledigaeth o iechyd a gofal cymdeithasol wrth symud ymlaen. Nid yw'n cyffwrdd â phwysigrwydd iechyd y cyhoedd a'r agenda ataliol sy'n hollbwysig, eto wrth i ni geisio datblygu'r system yn y blynyddoedd i ddod. Ac nid yw'n sôn dim am recriwtio a chadw staff sef *y* prif fater sy'n wynebu Bwrdd Iechyd Hywel Dda, fel byrddau iechyd eraill ledled y DU. Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Geidwadol y DU wedi llywyddu dros 10 mlynedd o doriadau i wasanaethau cyhoeddus sy'n golygu bod nifer o'n gwasanaethau iechyd ar fin methu. Bu methiant aruthrol i fuddsoddi mewn asedau a phobl yn y gwasanaeth iechyd, fel sydd wedi digwydd ar draws gweddill y sector cyhoeddus dros y ddegawd honno. Yr effaith ar y gwasanaethau iechyd yw bod gennym bobl yn marw ar draws y DU, marwolaethau y mae modd eu hosgoi; pobl yn marw ar droliau yn yr adran damweiniau ac achosion brys, neu'n waeth byth yn sownd gartref oherwydd bod ambiwlans wedi methu eu cyrraedd. Dyna'r record o ddeng mlynedd o lymder - ac rydyn ni'n meddwl tybed pam fod y gwasanaeth iechyd mewn cymaint o lanast? Os ydym am gynyddu a gwella gwasanaethau mewn unrhyw ran o gymdeithas, mae'n rhaid i ni fod yn barod i fuddsoddi ynddynt. Nid yw hynny wedi digwydd dros y degawd diwethaf ac yn gwbl onest mae cwestiwn yn gofyn i ni, fel y Cyngor, a ydym yn credu ei bod yn well lleoli ysbyty posib arfaethedig 5 milltir i'r Dwyrain neu'r Gorllewin – Sanclêr neu Hendy-gwyn - yn methu'r pwynt yn llwyr. Byddwn yn dweud hefyd ei bod yn codi fy ngwrychyn i raddau fod gennym aelodau lleol o'r blaid Geidwadol yma yn eu cyflwyno eu hunain fel amddiffynwyr y gwasanaethau iechyd ac amddiffynwyr gwasanaethau cyhoeddus fel y cyfryw, pan fo record eich plaid dros y 10 mlynedd diwethaf yn dangos nad ydych chi'n ddim o'r fath. I gyfeirio at eich cwestiwn ynghylch y safle, nid yw'r Cyngor hwn wedi cyflwyno sylwadau i'r Bwrdd Iechyd yn ffurfiol o ran y 3 opsiwn, ond bydd aelodau etholedig yn cael cyfle ar y 4ydd o Fai 2023 i gael sgwrs uniongyrchol ac i wneud unrhyw sylwadau i'r Bwrdd Iechyd mewn sesiwn sydd wedi'i threfnu'n arbennig. Nid dyma'r un cyntaf, rydyn ni wedi cael trafodaethau gyda'r Bwrdd Iechyd dros nifer o flynyddoedd wrth i'r cynlluniau hyn ddatblygu, ac yn y sesiynau hynny rydym wedi cael aelodau etholedig y Cyngor hwn yn cyflwyno sylwadau clir iawn, ac yn mynegi pryderon ynghylch y pellteroedd teithio a'r amseroedd maen nhw'n ofni fydd yn cynyddu - yn enwedig i'r aelodau hynny tua dwyrain y sir mewn ardaloedd fel Llanymddyfri, pen uchaf Dyffryn Tywi, aelodau Dyffryn Aman ac yn yr un modd ar gyfer aelodau yng nghornel de-ddwyrain y sir yn Llanelli; a byddwn i'n disgwyl i'r trafodaethau hynny barhau pan fyddwn ni'n siarad â'r Bwrdd Iechyd ar y 4ydd o Fai. Ond yn amlwg i'r aelodau hynny yng ngorllewin y sir, mae'n bosib y byddan nhw'n fwy bodlon gyda'r cynigion o ran y safleoedd posib yn Sanclêr a Hendy-gwyn. Ond fel y soniais, dyma drafodaethau i aelodau etholedig eu cael gyda'r Bwrdd Iechyd dros yr wythnosau nesaf ac rwy'n disgwyl i'r aelodau ymroi'n llawn i'r broses honno. Rwyf am ddweud yn y cyswllt hwn fy mod ychydig yn bryderus ynghylch yr hyn yr ydym wedi'i weld y bore yma, ac yn yr un modd yng nghyfarfod diwethaf y Cabinet, sef mewn gwirionedd herwgipio a chamddefnyddio slot cwestiynau'r cyhoedd at ddibenion plaid wleidyddol. Fel rhywun a oedd yn un o'r aelodau oedd yn pwyso am fwy o atebolrwydd gwleidyddol a mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd rhyw 10 mlynedd yn ôl bellach, roedd yr ysgogwyr ar gyfer y ddwy slot hyn

o ran eitemau 4 a 5 sydd gennym o'n blaenau heddiw – cwestiynau gan aelodau a'r cyhoedd – yn ymwneud â mwy o ymgysylltu ac atebolrwydd. Gadewch i mi fod yn glir, rwy'n llwyr ddisgwyl cael fy nal i gyfrif yn wleidyddol gan aelodau'r Cyngor hwn oherwydd dyna yw eu gwaith nhw, maen nhw wedi cael eu hethol i'w wneud ac rwy'n croesawu hynny oherwydd ei fod yn arwain at wneud penderfyniadau gwell yn y tymor hir. Rwyf hefyd yn croesawu cwestiynau gan aelodau cyffredin, dilys o'r cyhoedd sydd am godi pryder gyda'r Awdurdod, oherwydd trwy siarad a chlywed yn uniongyrchol gan drigolion dilys yr ydym yn aml yn adnabod bylchau a dallbwyntiau yn ein meddylfryd. Yr hyn nad wyf yn ei groesawu, fodd bynnag, yw bod plaid wleidyddol yn camddefnyddio a herwgipio amser cwestiynau'r cyhoedd, i bob golwg i geisio creu platfform i'w hunain. Nid dyna bwrpas y slot yma, ac mae'n fy nhristáu ein bod wedi cael 3 cwestiwn y bore yma gan aelodau'r blaid Geidwadol, pob un ohonynt wedi ceisio a methu cael eu hethol i'r lle hwn. Gan gyflwyno eu hunain, fel y soniais yn gynharach, fel amddiffynwyr y bobl, amddiffynwyr gwasanaethau cyhoeddus - pan nad ydyn nhw'n ddim o'r fath. Roedd yna etholiad ym mis Mai 2022, lai na blwyddyn yn ôl, a rhoddodd ymgeiswyr Ceidwadol eu hunain ymlaen i gael eu hethol ledled y sir - cawsoch eich gwrthod gan bawb. Ni lwyddodd yr un ymgeisydd o'r Blaid Geidwadol i gael ei ethol i'r lle hwn. Felly, rwy'n ei chael hi'n sarhaus, ar ôl methu argyhoeddi pobl drwy'r blwch pleidleisio, eich bod yn ceisio creu platfform i chi eich hunain drwy gamddefnyddio a herwgipio adran cwestiynau'r cyhoedd. Mae gyda ni bentwr o gwestiynau dibwrpas. Cwestiynau dibwrpas, bas, plaid-wleidyddol sy'n gwastraffu fy amser i, yn gwastraffu amser fy Nghabinet ac yn gwastraffu amser fy swyddogion. Byddwn i'n awgrymu'n barchus nad yw'n mynd â ni gam ymhellach ac os yw aelodau o'r blaid dorïaidd leol am wneud unrhyw gyfraniad at welliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin, byddwn yn gofyn i chi fynd â'r frwydr at gydweithwyr eich plaid eich hun yma yn Ne-orllewin Cymru ac ar lefel Llywodraeth y DU i sicrhau eu bod yn dechrau unioni camweddau'r 10 mlynedd diwethaf a'r tan-gyllido gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi arwain at eu bod ar fin methu. Dyna'r unig ateb, a dyna'r unig ffordd allan o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus priodol yn y rhan hon o'r byd. Mae'n gywilyddus, yn gwbl gywilyddus, eich bod chi'n ceisio herwgipio slot cwestiynau'r cyhoedd hwn at ddibenion plaid wleidyddol. Os ydych chi eisiau dadl wleidyddol, rwy'n fwy na pharod i gymryd rhan ynddi, ond y ffordd orau o wneud hynny yw argyhoeddi'r etholwyr yn Sir Gaerfyrddin mai chi yw'r bobl orau i'w cynrychioli. Hyd yma nid ydych wedi cael y profiad hynny, ac awgrymaf fod pobl Sir Gâr yn gallu gweld beth rydych chi'n ei wneud, dydyn nhw ddim yn dwp. Eich gwaith chi yw darbwyllo eich cydweithwyr yn y blaid ein bod yn cael digon o gyllid yn Sir Gaerfyrddin i ddarparu gwasanaethau fel yr ydyn ni'n dymuno. Diolch yn fawr".

**Cwestiwn atodol gan Charlie Evans:-**

"Gofynnais fy nghwestiwn heddiw fel aelod o'r cyhoedd, a gwnes ei ofyn yn gwrtais iawn ac, yn anffodus, dwi ddim yn credu fy mod i wedi cael y parch sy'n ddyledus yn ôl i mi fel aelod o'r cyhoedd. Rwyf yn talu treth y cyngor fel un o drigolion Sir Gaerfyrddin, a chi'r Cynghorydd Price yw fy nghynghorydd sir felly rwyf braidd yn bryderus nad ydych wedi rhoi i mi, fel un o drigolion y cyhoedd heddiw, yr un lefel o barch ag yr wyf innau'n ei rhoi i chi drwy gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Rwy'n pryderu'n fawr hefyd ei bod yn ymddangos eich bod yn agor y drws i gyfyngu ar aelodau'r cyhoedd rhag gofyn cwestiynau yn seiliedig ar gysylltiad plaid-wleidyddol - ni fyddech yn gwneud hynny i bobl eraill, felly rwy'n pryderu braidd. Mae gennyf hefyd broblem gyda'r modd y gwnaethoch fframio'r cwestiwn a ofynnais gan ddweud ei fod yn 'ddibwrpas', yn 'fas', 'yn brin o ddyfnder' - roedd yn ymddangos fel ffordd o osgoi'r cwestiwn. Fel y gwyddoch, mae unrhyw gynllun ar gyfer ysbyty newydd yn gofyn am gydweithio agos rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Sir, er

enghraifft gyda chynllunio, cysylltiadau â gofal cymdeithasol a llwybrau gwasanaeth bysiau, felly - pa lefel o fewnbwn ffurfiol sydd gan Gyngor Sir Caerfyrddin, o ystyried y rhyngddibyniaethau hynny, ydych chi wedi'i gael wrth lunio achos busnes y rhaglen gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda"?

**Ymateb gan y Cynghorydd Darren Price, Arweinydd y Cyngor i'r cwestiwn atodol :-**

"Yn amlwg mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd ar ystod eang o faterion, trwy ystod eang o fforymau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin, ceir integreiddio agos drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac mae swyddogion yn gweithio gyda phartneriaid y Bwrdd Iechyd trwy lu o raglenni, fel bod yr ymgysylltu yn gyson a bydd yn parhau.

Roedd fy sylw ynghylch ei fod yn 'ddibwrpas' a 'bas' yn ymwneud â'r ffocws ar os yw'n mynd i fod 5 milltir i'r dwyrain neu'r gorllewin - p'un a fydd yr ysbyty newydd hwn yn cael ei adeiladu yn Sanclêr neu yn Hendy-gwyn, ni fydd hynny'n gwneud dim gwahaniaeth o gwbl i'r materion ehangach y mae'r Gwasanaeth Iechyd yn eu hwynebu - dyna'r pwynt yr oeddwn yn ei wneud. Mae yna faterion llawer mwy sylfaenol y mae angen i ni ymosod arnynt - nid yn unig yn y tymor canolig, ond yn y tymor byr iawn o ran recriwtio staff, tâl ac amodau - yr ydych yn gwbl ymwybodol ohonynt. Mae Llywodraeth y DU wedi methu'n llwyr â delio â hynny. Tybed pam ein bod yn brin o staff - mae miloedd o fylchau yn ein gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a tybed pam? Maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu tanbrisio, maen nhw'n teimlo nad ydyn nhw'n cael eu talu'n ddigonol ac mae angen datrys hynny - nid yw wedi cael ei ddatrys hyd yma - a dyna oeddwn yn cyfeirio ato wrth sôn am eich cydweithwyr yn y blaid yn Llundain. O ran camddefnyddio slot cwestiynau'r cyhoedd, rwy'n croesawu'n fawr gyfraniadau gan aelodau dilys o'r cyhoedd - dim ond yr wythnos diwethaf yr oedd gyda ni un yn y Cyngor. Dyma lle mae ganddyn nhw brofiad uniongyrchol, profiad byw, lle mae rhywbeth yn effeithio arnyn nhw neu eu cymuned ac maen nhw eisiau gweld rhywbeth yn cael ei wneud.

Yr hyn rydyn ni'n ei weld heddiw yw 3 aelod o'r blaid Geidwadol yn lleol yn rhoi cwestiynau i mewn i gyd gyda'i gilydd. Mae'n gwbl glir i unrhyw un weld nad cyd-ddigwyddiad yw hynny - penderfyniad wedi'i gydlynu gan y blaid Geidwadol i geisio creu platfform oherwydd eu bod wedi methu, yn llwyr, cael cefnogaeth etholiadol gan bobl Sir Gaerfyrddin. Dwi'n gallu ei weld e, gall y Cabinet ei weld e, dwi wedi siarad â nifer o aelodau'r Cyngor yma o bob plaid, ac maen nhw i gyd yn gallu ei weld e a gall pobl Sir Gâr ei weld e. Os oeddech chi wirioneddol eisiau gwybod beth oedd safbwynt Sir Gaerfyrddin ar yr ysbyty newydd, gallech fod wedi anfon e-bost ata i, gallech fod wedi gofyn i mi 'a ydych chi wedi gwneud sylwadau?' a gallen i fod wedi dweud 'na' wrthoch chi - ond nid dyna oeddech chi eisiau. Roeddech chi eisiau dod yma, roeddech chi eisiau cael eich 5 munud o sylw ac roeddech chi eisiau gwneud sioe. Os oeddech chi eisiau ateb gwirioneddol gallech chi fod wedi fy e-bostio, ond nid dyna'r bwriad a dyna sy'n codi fy ngwrychyn. Nid cyfle i gael trafodaeth plaid-wleidyddol yw hyn. Mr Hughes, fel y soniodd Ann Davies, gwnaethoch chi'r pwyntiau gwleidyddol hynny yn y wasg yn dilyn cyfraniad diwethaf y Cabinet a dyna pam rwy'n credu ein bod ni'n anhapus iawn â sut aeth hynny - oherwydd nid yr hyn a ddyfynnwyd gennych yn y wasg oedd yr hyn a gyflwynwyd yma yn y Cabinet".

## 6. CYNNYDD Y CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR AMDDIFFYN

Yn unol â chymeradwyaeth y Cabinet ar 25 Hydref 2021 i'r Cyngor ail-lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog [cofnod rhif 6.1], rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd

yn manylu ar y cynnydd a wnaed gan y Cyngor tuag at gyflawni gwobr arian y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn.

Adolygodd Aelodau'r Cabinet y meini prawf hanfodol ar gyfer y wobr arian yn erbyn statws presennol y Cyngor mewn perthynas â phob gofyniad a oedd yn dangos bod yr holl ofynion wedi'u bodloni; fodd bynnag cydnabuwyd y gallai mabwysiadu'r Cynllun Cyfweliad Gwarantedig wella dull ac ymrwymiad y Cyngor i gyfamod y lluoedd arfog ymhellach.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**6.1 Bod cais yn cael ei wneud ar gyfer y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn (DERS) ar Lefel Gwobr Arian.**

**6.2 Bod gwaith yn cael ei wneud tuag at weithredu'r Cynllun Cyfweliad Gwarantedig.**

**7. NODI BOD GRWP PLAID CYMRU WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD LLINOS DAVIES AR Y PANEL RHIANTA A DIOGELU CORFFORAETHOL YN LLE'R CYNGHORYDD HEFIN JONES**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi bod Grŵp Plaid Cymru wedi enwebu'r Cynghorydd Llinos Davies yn lle'r Cynghorydd Hefin Jones ar y Panel Rhianta Corfforaethol a Diogelu.**

**8. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

________________________ ________________

**CHAIR** **DATE**